# TŷAgored

Rhifyn 1 2024 Y Cylchgrawn ar gyfer **Tenantiaid a Lesddeiliaid y Cyngor**



**Cartrefi newydd wedi'u datblygu yn hen adeiladau'r cyngor - gweler tud. 5 am fanylion**











Cyfeiriad dychwelyd: Dinas a Sir Abertawe, Canolfan Ddinesig, Oystermouth Road, Abertawe, SA1 3SN

Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

# Y tu **mewn**

## ERTHYGLAU


Ffocws ar... Gyflwyno Pennaeth Tîm Tai ac Iechyd y Cyhoedd newydd ............ 1

Cystadleuaeth Arddio 2023 Yr Enillwyr! ............ 2


## TENANTIAETH AC YSTAD


Gwasanaethau cefnogi ............ 3

Llais y Tenant ............ 4

Rhagor o gartrefi'n cael eu datblygu yn hen adeiladau'r cyngor yn Abertawe ............ 5

Newyddion Byw'n Annibynnol ............ 6


## CYNGOR CYFFREDINOL


Anwedd, llwydni a lleithder yn eich cartref ............ 7

Gwybodaeth am Ailgylchu ............ 9

Beth yw sgamiau? ............ 10


**Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn fformat arall e.e. print bras, Braille, disg neu ddull arall, cysylltwch â'r Gwasanaethau Cwsmeriaid Tai ☎ 01792 635045 neu ewch i'n gwefan www.abertawe.gov.uk/tai neu e-bostiwch ✉ tai@abertawe.gov.uk**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni.

## Eich sylwadau am gylchgrawn Tŷ Agored:

Oes gennych unrhyw sylwadau am y rhifyn hwn o gylchgrawn Tŷ Agored neu am unrhyw un o'r erthyglau yr ydych wedi'u darllen?

Os felly, gallwch ysgrifennu i'r cyfeiriad canlynol: Gwasanaethau Tai, Dinas a Sir Abertawe, Oystermouth Road, Abertawe SA1 3SN, Rhadbost RSCT-JJZH-KLJZ neu e-bostiwch ✉ **tai@abertawe.gov.uk** neu ffoniwch ☎ **01792 635045**.

**Diolch am eich amser.**
Rhowch wybod i ni a ydych yn hapus i ni gyhoeddi eich sylwadau yng nghylchgrawn Tŷ Agored.

# Croeso i **Dŷ** Agored

Croeso i rifyn diweddaraf Tŷ Agored. Byddwch yn sylwi bod y rhifyn hwn ychydig yn wahanol - rydym yn anelu at gyhoeddi rhifynnau llai, ond yn amlach bob blwyddyn. Rydym nawr yn e-bostio'r fersiwn ddigidol i'r rhai sydd wedi cofrestru ar ei chyfer, gyda'r fersiwn bapur ar gael ar gais yn unig. Rydym wedi crybwyll hyn yn y rhifynnau diwethaf o Dŷ Agored. Mae cynhyrchu llai o bapur yn rhan o'n hymrwymiad fel Cyngor i weithio tuag at leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr a chyflawni Abertawe sero net erbyn 2030. Gallwch gofrestru ar gyfer y fersiwn ddigidol o Dŷ Agored ar ein gwefan yn **www.abertawe.gov.uk/tyagored**

Nid yw'n teimlo fel bod y gwanwyn wedi cyrraedd eto, ond i'n helpu i deimlo fel nad yw'n rhy bell i ffwrdd, gallwch weld y gerddi buddugol hardd o Gystadleuaeth Arddio 2023 ar dudalen 2 a 3. Rydym bob amser yn dwlu ar weld yr holl waith a'r ymdrech sy'n rhan o baratoi'r gerddi ac edrychwn ymlaen at lansio'r gystadleuaeth eto yn ddiweddarach eleni.

Hoffem gyflwyno ein Pennaeth Gwasanaeth newydd ar dudalen 1 - mae Carol Morgan wedi gweithio yn yr adran Tai ers nifer o flynyddoedd a gallwch ddysgu ychydig am ei chefndir a'i blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

Yn anffodus, nid yw sgamiau byth yn bell o'r penawdau ac ar dudalen 10 mae rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol i'ch helpu i nodi ac amddiffyn eich hun rhag y sgamiau diweddaraf.

# **Cysylltiadau** Defnyddiol

| | |
|---|---|
| Golygydd - Nicola Jackson | ☎ **635045** |
| Canolfan Gyswllt Atgyweiriadau | ☎ **635100** |
| Atgyweiriadau Brys y tu allan i Oriau Swyddfa | ☎ **521500** |
| Uned Cefnogi Cymdogaethau 24 awr | ☎ **648507** |
| Opsiynau Tai | ☎ **533100** |
| Canolfan Gyswllt yr Amgylchedd | ☎ **635600** |
| Ymholiadau Budd-dal Tai | ☎ **635353** |

**Swyddfa Dai'r Ardal Ganolog**
*Mae'r ARDAL GANOLOG yn cwmpasu ardaloedd tai Townhill a chanol y dref ac mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yn Swyddfa Dai Townhill.*
✉ **swyddfadai.ardalaganolog@abertawe.gov.uk**
☎ **01792 513900**

**Swyddfa Dai Ardal y Dwyrain**
*Mae ARDAL Y DWYRAIN yn cwmpasu ardaloedd tai Eastside a Threforys ac mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yn Swyddfa Dai Treforys.*
✉ **swyddfadai.ardalydwyrain@abertawe.gov.uk**
☎ **01792 601720**

**Swyddfa Dai Ardal y Gogledd**
*Mae ARDAL Y GOGLEDD yn cwmpasu ardaloedd tai Blaen-y-maes a Phen-lan ac mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yn Swyddfa Dai Blaen-y-maes.*
✉ **swyddfadai.ardalygogledd@abertawe.gov.uk**
☎ **01792 534060**

**Swyddfa Dai Ardal y Gorllewin**
*Mae ARDAL Y GORLLEWIN yn cwmpasu ardaloedd tai Gorseinon, West Cross a Sgeti ac mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yn Hwb Llyfrgell Gorseinon a Swyddfa Dai Sgeti.*
✉ **swyddfadai.ardalygorllewin@abertawe.gov.uk**
☎ **01792 897700**

# Ffocws ar...

## Gyflwyno Pennaeth Tîm Tai ac Iechyd y Cyhoedd newydd





**Penodwyd Carol Morgan fel Pennaeth parhaol Tai ac Iechyd y Cyhoedd ym mis Awst 2023. Mae Carol wedi gweithio mewn nifer o dimau yn y Gwasanaeth Tai ac mae'n dod ag amrywiaeth eang o brofiad i'r rôl.**

### Cefndir - gan Carol

Ymunais â Thîm Tai Cyngor Abertawe fel Clerc Gwaith Atgyweirio a Rhent ar ddesg y dderbynfa yn hen Swyddfa Dai Ranbarthol Pen-lan ym 1995 gan gymryd ceisiadau am waith atgyweirio, taliadau rhent ac ymdrin ag ymholiadau gan denantiaid. Yn dilyn hyn, gweithiais mewn amrywiaeth o feysydd gan gynnwys Cyfranogiad Tenantiaid, Datblygu Gwasanaethau a Thai Fforddiadwy a bues i'n rheoli'r Is-adran Polisi a Strategaeth. Pan lansiwyd y Prosiect Rhagor o Gartrefi yn 2015, arweiniais y tîm wrth gyflwyno rhaglen adeiladu newydd uchelgeisiol y Cyngor a oedd yn cynnwys defnyddio ynni adnewyddadwy i greu cartrefi ynni effeithlon ar gyfer tenantiaid - mae hyn yn rhywbeth rydw i'n frwdfrydig iawn yn ei gylch. Dechreuais yn y swydd yn dilyn Mark Wade fel Pennaeth Dros Dro Tai ac Iechyd y Cyhoedd ym mis Mehefin 2022 a chefais fy mhenodi'n i'r rôl yn barhaol ym mis Awst 2023.

Mae fy meysydd cyfrifoldeb yn cynnwys Gwasanaethau Landlordiaid a Thai Cymunedol, Gwasanaethau Strategol, Grantiau Tai yn ogystal â thimau ym meysydd Iechyd y Cyhoedd gan gynnwys Iechyd yr Amgylchedd a Thrwyddedu a Bwyd a Diogelwch, Rheoli Adeiladau, Safonau Masnach a'r Gwasanaethau Profedigaeth.

### Ffocws ar gyfer y dyfodol...

Rydym yn canolbwyntio ar nifer o faterion sydd â blaenoriaeth uchel ar gyfer y dyfodol agos. Mae'r rhain yn cynnwys cynnal a chadw a gwella ein stoc tai presennol, mynd i'r afael â digartrefedd a chynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Rydw i hefyd yn rhan o Gomisiwn Gwirionedd Tlodi Abertawe, sef yr un cyntaf yng Nghymru, ac maent yn gweithio i drechu tlodi yn yr ardal. Rydym yn gweld cynnydd enfawr yn y galw am dai cymdeithasol a'r gwasanaethau tai rydym yn eu darparu. Mae angen cydbwyso'r gofynion hyn â'r y gallwn fforddio ei wneud a'r adnoddau sydd gennym er mwyn ei gyflawni - mae'n gyfnod heriol gyda llawer o bethau'n digwydd.

### Eich barn am y gwasanaeth tai

Rydym newydd gwblhau arolygon eang i gael eich barn am ein gwasanaethau fel ein tenantiaid a'n lesddeiliaid. Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd i wella'n gwasanaethau ac i sicrhau ein bod ni'n cynnal gwasanaethau effeithlon. Gallwch gymryd rhan a mynegi eich barn mewn nifer o ffyrdd gwahanol, neu, os oes gennych unrhyw syniadau o ran sut y gallwn wella'r gwasanaeth neu wybodaeth i'w darparu i'n tenantiaid mewn rhifynnau Tŷ Agored yn y dyfodol, ffoniwch ein Swyddog Cyfranogiad, Alison Winter, ar ☎ **01792 635043** neu e-bostiwch ✉ **alison.winter@abertawe.gov.uk**

***MAE'R HOLL WYBODAETH YNG NGHYLCHGRAWN TŶ AGORED YN GYWIR WRTH FYND I'R WASG.***

# Cystadleuaeth Arddio 2023

## Yr Enillwyr!

**Er gwaethaf y tywydd gwlyb a gwyntog yr haf diwethaf, roedd llawer o bobl wedi cymryd rhan o hyd yn y gystadleuaeth arddio i Denantiaid a Llesddeiliaid ac roedd y safon yn uchel iawn.**

Gofynnom i chi anfon lluniau o'ch gerddi atom a gwnaethoch chi ddim ein siomi! Roedd yr amrywiaeth hyfryd o flodau, planhigion a lliwiau wedi creu argraff ar y beirniaid ac roeddent wedi mwynhau'r syniadau unigryw a'r defnydd clyfar o le a welwyd.

Roedd yn hyfryd gweld llawer o bobl newydd yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth ac rydym yn gobeithio y bydd hyn yn ysbrydoli mwy ohonoch i gymryd rhan yn 2024.

Felly diolch i bawb a gymerodd ran, llongyfarchiadau i'n holl enillwyr ac rydym yn edrych ymlaen at weld eich gerddi'n ddiweddarach eleni - caiff manylion cystadleuaeth eleni eu cyhoeddi'n fuan!



Yr ardd eco orau - Geraldine Spencer

**Dyma ddetholiad o erddi'r enillwyr:**



Safle 1af - Stephen Rees



2il safle - Alfred Scott



3ydd safle - Andrea Evans



Yr ardd a drawsnewidiwyd orau - Thande Hettiarachchi



Yr ardd blodau gwyllt orau - Patrick McCormack



Y defnydd gorau o le bach - Josie Phillips



www.abertawe.gov.uk/tai
tai@abertawe.gov.uk



Cyfadeilad lloches - Gloucester House



Yr ardd ffordd o fyw orau - Louise Hopkins



Yr ardd fwytadwy orau - Andrea Evans



Y blodyn haul gorau - Thande Hettiarachchi



Y garddwr newydd gorau - Joanne McCabe

# Gwasanaethau cefnogi

## Hawliad Budd-dal Tai

I gyflwyno cais newydd am Fudd-dal Tai, ffoniwch y **Tîm Hawlio** ar ☎ **635353** neu e-bostiwch
✉ **caisnewyddamfudd-daliadau@abertawe.gov.uk**

Er mwyn trafod eich hawliad â Swyddog Budd-dal Tai, ffoniwch ☎ **635353** neu e-bostiwch
✉ **budd-daliadau@abertawe.gov.uk**

## Tîm Rhenti

Os ydych chi'n cael anhawster wrth dalu'ch rhent, cysylltwch â'r **Tîm Rhenti** drwy ffonio
☎ **01792 534094**
✉ **rhenti@abertawe.gov.uk**

## UCT - Uned Cefnogi Tenantiaid

Dinas a Sir Abertawe sy'n rheoli'r **UCT**, a all gynnig gweithiwr cefnogi i helpu gyda phroblemau ariannol neu unrhyw faterion cefnogi eraill gyda'ch tenantiaeth. Ffoniwch eich Swyddog Rhent neu'r **Uned Cefnogi Tenantiaid** ar ☎ **774360** os oes angen cymorth arnoch.

## Opsiynau Tai

Cyngor ar arian a dyledion - hefyd, rhoddir cyngor am ddim os yw'ch tenantiaeth mewn perygl.
☎ **01792 533100**
✉ **opsiynautai@abertawe.gov.uk**

## Cyngor ar Bopeth Abertawe

Ail Lawr, City Gates, 50a Wind Street, Abertawe SA1 1EE ☎ **0300 3309 082**
🖱 **www.adviceguide.org.uk/wales.htm**

## Shelter Cymru

Os ydych wedi'ch bygwth â digartrefedd, cynigir cyngor a chymorth i chi am ddim ☎ **01792 469400**
Llinell Gymorth Cyngor ar Dai ☎ **08000 495 495**
🖱 **www.sheltercymru.org.uk/?lang=cy**

## Cyngor ar ddyled Stepchange

Cyngor ar ddyledion gan Stepchange
☎ **0800 138 1111** 🖱 **www.stepchange.org**

## Gweithffyrdd

I gael cyngor ar sut i gael gwaith
☎ **01792 637112** 🖱 **www.workways.wales**
✉ **workways+@swansea.gov.uk**

# Llais y Tenant

**Fy enw i yw Alison Winter a fi yw eich Swyddog Cyfranogiad. Dyma fy niweddariad rheolaidd am gyfranogiad tenantiaid yn Abertawe, lle dwi'n rhoi newyddion i chi oddi wrth grwpiau lleol a grwpiau ar draws y ddinas.**



## Cynhadledd TPAS

Cynhaliodd TPAS (Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru) Cymru gynhadledd ddeuddydd genedlaethol yn Llandrindod yn ddiweddar. Roedd tri thenant yn bresennol, ynghyd â Nicola Jackson, Uwch-swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chyfathrebu. Mae'r tenantiaid yn aelodau o'n Panel Ymgynghorol y Tenantiaid a chawsant eu dewis ar hap. Thema cynhadledd eleni oedd Eich Cartref, Eich Cymunedau - Mae Eich Llais yn Bwysig. Agorodd Julie James MS, Y Gweinidog Newid Hinsawdd, y gynhadledd, ac fe'i dilynwyd gan amrywiaeth o weithdai ar bynciau fel SATC, heriau ar gyfer tai cymdeithasol, Cymru Gynnes - cyngor ar ynni, tai sero-net a'r hyn sy'n bwysig i denantiaid yng Nghymru. Roedd yn gyfle gwych i'r tenantiaid ddarganfod yr hyn mae sefydliadau tai eraill yn ei wneud a chael cyfle i siarad â thenantiaid eraill. Dywedodd Pauline, a oedd yn bresennol, ei bod wedi mwynhau'r gynhadledd, yn enwedig gweithdy 'Cymru Gynnes', gan ei fod mor berthnasol i helpu tenantiaid gyda materion ynni a chostau. Rydym yn gweithio gyda Cymru Gynnes i drefnu sesiynau tebyg gyda'n tenantiaid.





## Digwyddiadau Ymgysylltu Dros Dro

Drwy gydol 2023, gwnaethom gynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu dros dro yn ein hystadau ledled Abertawe. Cynhaliwyd digwyddiadau ailgylchu yn Woodford Road, Blaen-y-maes, Kenilworth Place, West Cross, ac yn fwy diweddar, Heol Graigfelen, Clydach. Rydym hefyd wedi cynnal rhai digwyddiadau dros dro am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol hefyd yn Elan Avenue, y Clâs a Baywood Avenue, West Cross. Mae'r digwyddiadau hyn wedi bod yn boblogaidd iawn gyda thenantiaid ac rydym am barhau i'w cynnal drwy gydol 2024. Os oes gennych unrhyw syniadau ar gyfer digwyddiad dros dro yn eich ardal chi, mae croeso i chi gysylltu â ni.

## Facebook

Mae gan adran Tai Cyngor Abertawe ei grŵp Facebook ei hun, y gall unrhyw denant neu lesddeiliad y cyngor ymuno ag e'. Rydym yn postio gwybodaeth

ddefnyddiol, yn eich cynghori ar ddiweddariadau a newidiadau i'r gwasanaethau tai ac wrth gwrs yn ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau am bynciau yr hoffech eu cynnwys, cysylltwch â ni. Os hoffech ymuno, chwiliwch am 'Tai Cyngor Abertawe' ar Facebook, gwnewch gais i ymuno a gofynnir y cwestiynau canlynol i chi. 1. Enw'r tenant arweiniol, 2. Cyfeiriad 3. Eich dewis iaith. Dim ond os byddwch yn ateb y cwestiynau hyn y caiff eich cais ei gymeradwyo.

## Strategaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltu 2024 - 2028

Mae'r Strategaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltu hwn yn manylu ar sut gall tenantiaid gymryd rhan mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw. Mae'r strategaeth hon wedi cael ei hadolygu'n ddiweddar a bydd ar gael ar ein gwefan yn fuan. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y strategaeth, cysylltwch â mi i drafod ymhellach.

## Porth "Fy Nhai"

Bydd y porth "Fy Nhai" yn eich caniatáu i greu cyfrif tai personol o'ch tabled, eich ffôn clyfar neu'ch cyfrifiadur personol y gallwch ei ddefnyddio ar amser sy'n gyfleus i chi. Mae'n caniatáu i chi weld eich balans rhent a'ch trafodion, talu eich rhent, gwneud cais am atgyweiriadau, cadw cofnod o unrhyw atgyweiriadau yr ardoddwyd amdanynt, newid eich manylion personol ac anfon negeseuon atom neu roi gwybod am faterion rheoli tai.

## Dweud eich dweud

Gallwch gymryd rhan cymaint neu gyn lleied ag yr hoffech, hefyd, does dim rhaid i chi ddod i gyfarfodydd a gallwch fynegi'ch barn o gysur eich cartref. Os hoffech wybod mwy am unrhyw un o'r grwpiau, y porth, neu'r grŵp Facebook, ffoniwch fi ar ☎ **01792 635043** neu ☎ **07775221453**, neu cysylltwch â fi drwy Messenger neu e-bostiwch fi yn ✉ **alison.winter@abertawe.gov.uk**

# Rhagor o gartrefi'n cael eu datblygu yn hen adeiladau'r cyngor yn Abertawe

Yn ddiweddar, rydym wedi ychwanegu 10 o fflatiau newydd mawr eu hangen at ein tai cyngor drwy droi hen swyddfeydd tai rhanbarthol Pen-lan ac Eastside yn llety unwaith eto.

Ail-luniwyd hen swyddfa dai ranbarthol Pen-lan i ddarparu pum fflat 2 ystafell wely ac un fflat 1 ystafell wely sy'n cael eu defnyddio fel llety dros dro er mwyn helpu teuluoedd sydd mewn perygl o fod yn ddigartref.

Mae hen swyddfa dai Eastside wedi'i thrawsnewid yn bedair fflat 1 ystafell wely ac mae'n darparu llety parhaol.

Mae'r ddau adeilad wedi derbyn inswleiddiad allanol a system rendro newydd, ffenestri a drysau newydd gyda systemau mynediad fideo ac addasiad mewnol cyflawn gyda cheginau ac ystafelloedd ymolchi newydd, boeler newydd, systemau gwresogi ac awyru, nodweddion seinglosio a lloriau finyl.

Gosodwyd systemau taenellwyr a larwm tân llawn hefyd yn unol â rheoliadau presennol. Ar y tu allan, mae'r ddau adeilad wedi cael eu tirlunio i ddarparu cyfleusterau sychu, cyfleusterau storio biniau unigol ac ardaloedd eistedd anffurfiol.

Mae pob fflat hefyd wedi derbyn lle parcio oddi ar y ffordd dynodedig.

Byddwn yn parhau i gynyddu a gwella ein stoc tai er mwyn helpu i leihau rhestrau aros ac i sicrhau ein bod ni'n mynd i'r afael â digartrefedd yn effeithiol.

## Mae Swyddfa Dai Canol y Dref yn symud i Swyddfa Dai Townhill

Disgwylir i'r fflatiau yn Croft Street gael eu hatgyweirio a'u gwella'n sylweddol i sicrhau eu bod yn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru. I gyflawni hyn, bydd y swyddfa dai'n cau'n barhaol ddydd Gwener 5 Ebrill 2024. Bydd y tîm bellach wedi'i leoli yn Swyddfa Dai Townhill a gall preswylwyr gael mynediad at ein gwasanaethau yno - ceir manylion cyswllt y tu mewn i'r clawr.

# Newyddion Byw'n Annibynnol

## Parti Nadolig Clwb Cymdeithasol Pen-lan

Cynhaliwyd Parti Nadolig Tenantiaid Gwasanaeth Byw'n Annibynnol yng Nghlwb Cymdeithasol Pen-lan ar ddiwedd mis Tachwedd. Mwynhaodd y tenantiaid bryd 2 gwrs, ac yna bingo, raffl ac adloniant gan Kenny Smiles.

Dyma'r parti Nadolig cyntaf ers pandemig COVID-19, a chafodd pawb amser gwych. Roedd yn wych gweld pawb yn mwynhau eu hunain ac yn mwynhau hwyl yr ŵyl.

Meddai Llinos Price, Rheolwr Byw'n Annibynnol, "Diolch i bawb a ddaeth draw i sicrhau ei fod yn achlysur mor bleserus a diolch yn arbennig i'r Uwch-swyddogion Byw'n Annibynnol, Sandra Brown a Cheryl Duffy, a wnaeth waith gwych yn trefnu'r digwyddiad cyfan."





## Côr Nadolig Mayals yn Nhŷ Thomas Harris

Cafodd preswylwyr Tŷ Thomas Harris, West Cross, ymweliad gan Gôr y Nadolig Mayals, a oedd yn cynnwys plant o'r ardal leol. Daeth y plant i ganu i'r preswylwyr a mwynhaodd pawb yn fawr. "Roedd yn hyfryd! Rydw i ac Arweinydd y Côr wedi cytuno i gysylltu yn y flwyddyn newydd i drefnu rhai digwyddiadau eraill," meddai Jessica Bennet, Trefnydd Byw'n Annibynnol.



## Cystadleuaeth Goleuadau Nadolig

Llongyfarchiadau i Heol y Gors a enillodd Cystadleuaeth Goleuadau Nadolig Byw'n Annibynnol 2023. Unwaith eto, nid oedd tenantiaid Heol y Gors wedi ein siomi gyda sioe oleuadau ysblennydd er mwyn dod â rhywfaint o hwyl yr ŵyl i'w leoliad Cynllun Byw'n Annibynnol.

## Bore Coffi Macmillan

Llongyfarchiadau i denantiaid Tŷ Dewi Sant a gynhaliodd fore Coffi Macmillan i godi arian ar gyfer Cymorth Canser Macmillan. Codwyd dros £1,500 ar gyfer yr elusen a dywedodd y Swyddog Byw'n Annibynnol, Jayne Hughes, fod "pawb wedi gweithio mor galed ac roedd pawb i'w gweld yn mwynhau'r digwyddiadau, da iawn i bawb a gymerodd ran".


www.abertawe.gov.uk/tai
tai@abertawe.gov.uk

# Anwedd, llwydni a lleithder yn eich cartref



## Beth yw anwedd?

Mae lleithder yn yr aer drwy'r amser, sy'n cael ei gynhyrchu gan fywyd cyffredin o ddydd i ddydd. Pan fo aer llaith, cynnes yn cyrraedd arwynebau oer, mae'r aer yn oeri ac yn ffurfio diferion o ddŵr, sef anwedd.

Mae deffro a gweld anwedd ar ffenestri'n rhywbeth cyffredin i'r rhan fwyaf o bobl, yn enwedig yn y gaeaf. Nid yw fel arfer yn broblem a bydd yr anwedd yn diflannu wrth i chi agor y ffenestri am gyfnod byr er mwyn caniatáu awyru naturiol. Fodd bynnag, os bydd anwedd yn digwydd dros gyfnod hir ac nid yw'n clirio oherwydd diffyg awyru, bydd symptomau eraill yn ymddangos fel darnau llaith ar waliau, papur wal sy'n pilio, aroglau llwydni ac yn y pen draw tyfiant o lwydni du. Gall llwydni arwain at eiddo diolwg, llwydaidd a gall hefyd sbarduno problemau iechyd fel asthma a chwynion eraill neu eu gwneud yn waeth.

## Lleihau anwedd

Dyma rai awgrymiadau defnyddiol i'ch helpu i leihau anwedd yn eich cartref:

## Cyffredinol

- Agorwch ffenestri yn y bore am 20 munud i adael awyr iach i mewn i'ch cartref.
- Gadewch awyrellau diferu ar ffenestri ar agor drwy gydol y flwyddyn a pheidiwch â'u rhwystro na'r tyllau awyr yn y wal.
- Sychwch yr holl arwynebau a ffenestri lle ceir anwedd bob bore - eich cyfrifoldeb chi yw hyn.
- Ceisiwch adael y gwres ymlaen yn isel am sawl awr y dydd pan fydd hi'n oer - os yw'ch cartref yn gynnes, mae'n llai tebygol y byddwch yn gweld unrhyw anwedd.
- Cadwch ddrysau mewnol ar agor fymryn i ganiatáu i aer a gwres gylchredeg (oni bai eich bod yn coginio neu'n cael bath/cawod).
- Os oes gennych system Awyru Mewnbwn Positif (PIV), y cyfeirir ati weithiau fel 'Drimaster', gadewch hi ymlaen drwy'r amser, a chadwch ffenestri a drysau allanol ar gau.
- Bydd rhai gwyntyllau echdynnu yn troi eu hunain ymlaen pan fo angen ac yn diffodd eu hunain yn awtomatig wrth i leithder (lleithder yn yr awyr) newid - gadewch y rhain ymlaen bob amser. Mae'r rhan fwyaf o wyntyllau echdynnu a osodir gan y cyngor yn costio tua £5 y flwyddyn i'w rhedeg.
- Gadewch fwlch rhwng y celfi a'r waliau i helpu i gylchredeg yr aer.
- Cadwch gaeadau ar danciau pysgod.
- Peidiwch â defnyddio gwresogyddion nwy mewn poteli (Calor etc.).
- Sicrhewch fod eich cartref wedi'i inswleiddio - mae'r cyngor yn cynnig inswleiddio'r llofft am ddim i'w denantiaid.

## Wrth goginio

- Coginiwch gyda chaeadau ar sosbenni bob amser a throwch y gwres i lawr pan fydd y dŵr wedi berwi.
- Agorwch ffenestri'r gegin rywfaint a chaewch y drysau a throwch eich gwyntyll echdynnu ymlaen os yw'n un sy'n cael ei gweithredu â llaw. Caniatewch i'r wyntyll redeg am oddeutu 15 munud ar ôl i chi orffen coginio.
- Peidiwch â defnyddio'ch ffwrn nwy i wresogi'ch cegin.

## Wrth ymolchi

- Wrth lenwi'r baddon, rhedwch y dŵr oer yn gyntaf ac yna ychwanegwch y dŵr poeth - bydd yn lleihau'r stêm sy'n arwain at anwedd hyd at 90%.
- Defnyddiwch y wyntyll echdynnu bob amser wrth gael bath neu gawod a gadewch iddi rhedeg nes bod yr anwedd wedi clirio.
- Cadwch ddrws yr ystafell ymolchi ar gau i atal lleithder rhag dianc.
- Sychwch bob arwyneb oer a llaith gyda lliain sych.

## Golchi a sychu dillad

- Peidiwch byth â sychu dillad ar reiddiaduron - defnyddiwch hors ddillad.
- Sychwch y golch yn yr awyr agored os oes modd, neu rhowch ef yn yr ystafell ymolchi gyda'r drws ar gau a'r ffenestr ar agor neu'r wyntyll echdynnu ymlaen.

- Os ydych chi'n defnyddio sychdaflwr, gwnewch yn siŵr ei fod yn cael ei wagio y tu allan i'ch eiddo (mae pecynnau DIY ar gael ar gyfer hyn) neu fod y sychdaflwr yn un o'r rhai newydd sy'n cyddwyso.

## Trin llwydni

- Os ydych chi'n sylwi ar lwydni, dylech ei drin ar unwaith er mwyn ei atal rhag lledaenu ac achosi mwy o ddifrod i'ch cartref.
- PEIDIWCH â defnyddio cannydd i drin y llwydni.
- Ewch ati i sterileiddio'r man yr effeithir arno gyda golchiad ffyngladdol (ar gael o'r rhan fwyaf o siopau DIY). Sicrhewch eich bod yn dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.
- Gwiriwch y man yr effeithir arno am wythnos ac os oes angen, dylech drin y man eto.
- Bydd defnyddio paent emylsiwn sy'n atal llwydni wrth addurno waliau a nenfydau yn helpu i atal llwydni rhag dychwelyd.

## Beth sy'n digwydd pan fyddwch chi'n dweud wrthym am anwedd, llwydni a lleithder?

Byddwn yn trefnu i arolygydd atgyweiriadau ymweld â'ch cartref i ymchwilio i'r hyn a allai fod yn achosi'r problemau. Bydd yr arolygydd yn edrych i weld a oes unrhyw ddiffygion adeileddol sylfaenol yn cyfrannu at broblemau anwedd a llwydni fel:

- dŵr yn treiddio drwy'r waliau allanol a'r to.
- lleithder codi - lleithder o'r ddaear yn codi i fyny i waliau'r adeilad.
- deunydd inswleiddio waliau ceudod anaddas.
- pibellau dŵr mewnol yn gollwng.

Bydd hefyd yn edrych ar lefelau'r lleithder/anwedd dŵr a gynhyrchir y tu mewn i'r tŷ gan y gall lefelau uchel achosi anwedd a all arwain at lwydni.

Gan ddibynnu ar beth yw canlyniad yr archwiliad, gall atgyweiriadau a thriniaethau gynnwys:

- Atgyweiriadau i waliau neu do'r adeilad i gael gwared ar leithder codi neu sy'n treiddio iddynt.
- Cynyddu'r deunydd inswleiddio.
- Gosod gwyntyllau echdynnu ar waliau a system mewnbwn positif (PIV) e.e. Drimaster ar gyfer awyriad drwy eich cartref drwyddi draw.
- Trin effeithiau llwydni du a achosir gan anwedd gyda thoddiant atal llwydni.
- Byddwn hefyd yn rhoi cyngor i chi ar sut i leihau anwedd a llwydni a sut i'w hatal rhag digwydd eto.

## Systemau Awyru Mewnbwn Positif (PIV)

Rydym yn aml yn gosod systemau PIV i helpu gyda'r awyru yn eich cartref os ydych chi'n cael problemau gydag anwedd. Gelwir y rhain hefyd yn 'Drimasters'.

- Maent fel arfer yn cael eu gosod yn atig eich cartref (neu ar y tu allan os nad oes gennych atig) a bydd awyrellau'n cael eu gosod yn eich nenfwd.
- Mae angen i chi ei adael ymlaen bob amser, cadw'ch ffenestri a'ch drysau allanol ar gau ond gadael yr awyrellau diferu ar eich ffenestri ar agor. Bydd y rhan fwyaf o fodelau yn troi eu hunain ymlaen pan fo angen ac yn diffodd eu hunain yn awtomatig.
- Byddant yn lleihau gwlybaniaeth yn yr awyr gan dynnu aer glân, ffres o bwyntiau awyru naturiol yr atig, drwy'ch cartref a gwthio'r aer llaith allan drwy'r awyrellau diferu.
- Maent yn helpu i leihau anwedd, llwydni a lleithder a hefyd yn helpu i wella ansawdd aer mewnol.

Os ydych chi'n cael problemau gydag anwedd a llwydni yn eich cartref, ffoniwch Ganolfan Alwadau Atgyweiriadau Tai ar ☎ **01792 635100**

Neu adroddwch drwy:
**www.abertawe.gov.uk/caisamwellacartref**

Ap Fy Nhai: **https://housing.swansea.gov.uk**

Mae gennym hefyd wybodaeth a fideo sy'n rhoi cyngor i chi ar ein gwefan: **www.abertawe.gov.uk/problemauanweddtenantiaid**

Am gymorth a chyngor gyda'ch biliau a chostau byw: **www.abertawe.gov.uk/helpcostaubyw**



# Bydd Wych. Ailgylcha. - Dewch inni gael Cymru i rif 1!

BYDD WYCH. AILGYLCHA.

**Yma yng Nghymru, rydyn ni'n ailgylchwyr balch, a dyna sydd wedi ein gwneud yn drydedd genedl ailgylchu orau'r BYD. Ond rydyn ni am wneud yn well fyth, felly mae Cyngor Abertawe yn cefnogi ymgyrch Bydd Wych. Ailgylcha. gan Cymru yn Ailgylchu i'n helpu i gyrraedd rhif un! A byddwn yn hoelio ein sylw ar wastraff bwyd. Mae'n bryd inni roi'r gorau i fwydo'r bin, arbed ychydig o arian i ni'n hunain a chreu ynni glanach, gwyrddach yn hytrach. Pwy sy'n barod amdani?**

## Mae cost yn perthyn i wastraff bwyd

Er bod y rhan fwyaf ohonom yn gwybod mai i'r cadi bach pwrpasol mae gwastraff bwyd i fod i fynd, a bod arolwg gan WRAP wedi datgelu bod 90% yn cytuno na ddylai bwyd fyth fynd i'r bin sbwriel, y ffaith yw mai bwyd yw chwarter cynnwys ein biniau sbwriel o hyd. Gellid bod wedi bwyta 80% ohono, a gellid bod wedi ailgylchu'r gweddill (pethau na ellir eu bwyta fel crwyn bananas, plisg wyau) i greu ynni adnewyddadwy i bweru ein cartrefi!

Nid yn unig mae'r holl fwyd hwn na chafodd ei fwyta yn gyfanswm o 110,000 o dunelli o wastraff y flwyddyn - sy'n cyfateb i lond 3,300 o fysiau deulawr - mae hefyd yn costio £49 y mis i'r aelwyd gyfartalog. Ydi, mae'n wir - drwy frwydro gwastraff bwyd, rydych chi'n rhoi hwb i'ch poced yn ogystal â helpu'r blaned! A gyda 75% ohonom yn poeni am gostau byw ar hyn o bryd, mae'n sicr yn beth gwerth chweil i'w wneud.

Y newyddion da yw ei bod yn hawdd i chi wneud hyn gartref, hefyd. Rhowch her i chi'ch hun o wneud i'ch bwyd fynd ymhellach drwy:

- Ddefnyddio'r holl fwyd rydych chi'n ei brynu.
- Ailgylchu'r pethau na ellir eu bwyta i greu ynni adnewyddadwy.

**Dyma sut mewn dau gam syml…**

## 1. Gwella prydau bwyd gyda'r bwydydd sydd dros ben yn yr oergell

Dim ots pa mor ofalus rydyn ni'n cynllunio, weithiau mae pethau annisgwyl yn digwydd ac mae'n rhaid inni feddwl ar ein traed i sicrhau nad oes dim yn cael ei wastraffu. Meddyliwch am hyn fel her greadigol a'i ddefnyddio fel esgus i ddyrchafu eich prydau bwyd mewn chwinciad!

Er enghraifft, beth am wneud omled yn well fyth drwy ychwanegu cig a llysiau sydd angen eu defnyddio, neu greu tosti caws mwy epig fyth drwy ychwanegu'r olaf o'r sleisys ham? Mae ffrwythau goraeddfed yn ffordd wych o roi hwb i flas a gwerth maethol eich uwd, iogwrt a smwddis. Blasus, iachus, sydyn, arbed arian - dyna rysáit ddelfrydol!

## 2. Os na alli di ei fwyta fe, ailgylcha fe

Fe wyddom oll fod ailgylchu poteli plastig a jariau gwydr yn golygu y gellir eu troi'n becynnau newydd, ond wyddoch chi fod ailgylchu bwyd yn helpu i greu ynni adnewyddadwy?

Yma yng Nghymru, mae bron pob un o'r awdurdodau lleol yn ailgylchu gwastraff bwyd i greu ynni glanach, gwyrddach, ac yn 2023, fe wnaethom ailgylchu digon i bweru mwy na 10,000 o gartref!

Gallai dim ond un llond cadi o wastraff bwyd greu digon o ynni i bweru aelwyd am bron i awr, felly p'un ai'r bagiau te, crwyn bananas neu hyd yn oed fwydydd heibio'u dyddiad sydd wedi llwydo sydd dan sylw - dylai'r cwbl fynd i'r bin bwyd. Meddyliwch 'mae gwastraff bwyd yn golygu ynni' ac osgowch yr 'ych a fi' drwy...

- Ddefnyddio bag leinio cadi.
- Ei wagio'n rheolaidd.
- Osgoi hylifau.
- Ei lanhau'n dda gyda hylif glanhau bob cwpl o wythnosau.

Dilynwch yr awgrymiadau gwych hyn ac fe welwch fod ailgylchu eich gwastraff bwyd yn creu llai o arogleuon ac yn lanach na'i roi yn y bin, mewn gwirionedd. Bydd Wych - mae'n hawdd!

Os oes angen bin bwyd neu leininau newydd arnoch, mae'r rhain ar gael i'w casglu o'ch llyfrgell neu'ch swyddfeydd tai lleol.

**Felly, ymunwch a ni a helpu i gael Cymru i rif un yn y byd a bod yn genedl ddiwastraff.**

I ddysgu mwy am sut i wneud i'ch bwyd fynd ymhellach, ac i archebu cadi bwyd os nad oes gennych un yn barod, ewch i wefan
**www.walesrecycles.org.uk/cy/bydd-wych-ailgylcha**

Cofiwch na chaniateir ailgylchu yn y sachau du



## ABERTAWE

**Daliwch ati,**

**CADWCH YR AILGYLCHU MAS!**

@recycle4swansea Swansea Recycles

# Beth yw sgamiau?



**Mae sgamiau'n gofyn i bobl roi eu harian a'u manylion personol i rywun drwy eu bygwth neu drwy addo arian, gwobrau, gwasanaethau ac enillion uchel ffug ar fuddsoddiadau.**

Y nod yw ceisio cael pobl i ddatgelu eu manylion personol, dwyn eu gwybodaeth neu hyd yn oed eu perswadio i wneud taliad neu drosglwyddo arian yn wirfoddol.

**Beth yw'r mathau gwahanol o sgamiau?**

## Sgamiau drwy'r Post

Mae mathau cyffredin o sgamiau drwy'r post yn cynnwys loterïau a chystadlaethau ffug, cynigion o fuddsoddiad, arian etifeddiaeth, gwellhad iechyd a llythyrau gan glirweledwyr.

## Sgamiau dros y ffôn

Mae sgamiau dros y ffôn cyffredin yn cynnwys sgamiau buddsoddi, pensiwn neu gyfrifiadur.

Mae'r person sy'n ffonio'n aml yn broffesiynol iawn ac efallai bydd yn esgus ei fod yn ffonio o sefydliad dibynadwy fel banc, yr heddlu neu gwmni arall rydych chi'n gyfarwydd ag ef.

Efallai bydd gan y person sy'n ffonio ychydig o'ch gwybodaeth er mwyn iddo ymddangos yn fwy dilys.

## Sgamiau ar y Rhyngrwyd

Efallai bydd e-bost sy'n ymddangos ei fod wedi dod o'ch banc neu gwmni arall er mwyn eich twyllo i ddatgelu manylion personol.

Efallai bydd gofyn i chi glicio ar ddolen a fydd yn mynd â chi at ddolen ffug lle bydd gofyn i chi nodi eich manylion.

## Sgam Rhamant

Mae sgam rhamant yn fath o dwyll ar-lein lle mae unigolion yn defnyddio hunaniaethau ffug i feithrin perthnasoedd rhamantus â dioddefwyr drwy lwyfannau ar-lein, cyfryngau cymdeithasol neu wefannau canlyn.

Mae troseddwr yn creu proffil ffug ar lwyfannau canlyn ar-lein neu gyfryngau cymdeithasol ac yn targedu unigolion mewn ymgais i gael pobl i ymddiried ynddo.

Yn y diwedd, bydd hyn yn arwain at geisiadau am arian ar gyfer buddsoddiadau, ffioedd cyfreithiol, teithio neu brosiect newydd, er enghraifft.

Gall ceisiadau cynnar am arian ac amharodrwydd i siarad am ei waith neu ei fywyd fod yn arwyddion. Os ydych chi wedi profi unrhyw beth amheus, siaradwch â rhywun rydych chi'n ymddiried ynddo.

Peidiwch byth ag anfon arian at unrhyw un nad ydych erioed wedi siarad ag ef dros y ffôn neu unrhyw un nad ydych erioed wedi cwrdd ag ef, waeth beth fo'r stori y gall fod wedi'i dweud wrthych.

Dyma rai o'r sgamiau sy'n cael eu defnyddio i dargedu pobl, ond mae llawer mwy yn bodoli.

## Sut i gadw'ch hun yn ddiogel:

- **PEIDIWCH BYTH Â RHOI EICH MANYLION BANC I UNRHYW UN** - Os ydych chi'n meddwl eich bod wedi dioddef sgam, cysylltwch â'ch banc ar unwaith
- Dywedwch **NA** i alwadau ffôn diangen, di-wahoddiad.
- Byddwch yn ymwybodol o sgamiau drwy'r post, ni fydd unrhyw gwmnïau dilys yn gofyn am arian er mwyn hawlio gwobr.
- Byddwch yn ddoeth ar-lein, mae troseddwyr yn gallu copïo cwmnïau dilys, os nad ydych chi'n siŵr, peidiwch ag agor dolenni neu atodiadau mewn e-byst.
- Siaradwch â rhywun rydych chi'n ymddiried ynddo os ydych chi'n amheus.
- Gall unrhyw un ddioddef sgam. Os ydych chi'n sylwi ar sgam, dylech adrodd amdano bob tro.

**Adroddwch amdano i:**

Action Fraud ar ☎ **0300 123 2040**

Cyngor ar Bopeth ar ☎ **08082231133**



www.abertawe.gov.uk/tai

tai@abertawe.gov.uk